Cyngor Bro Llanllwni: Adroddiad mis Tachwedd 2024

Cynhaliwyd y Cyfarfod yn Neuadd Gymunedol Llanllwni nos Lun 27 Tachwedd 2024 am 8.00yh. Roedd y Clerc wedi rhoi poster yn y Swyddfa Bost ac yn y Neuadd Gymunedol cyn y cyfarfod.

Y CAE CHWARAE:

Cadarnhawyd bod y maes chwarae a'r adnoddau wedi'u harchwilio'n fanwl. Nid oedd damweiniau i'w cofnodi. Cytunwyd y byddai rhai coed afalau yn cael ei plannu ar y cae yn ystod Mis Ionawr 2025. Lyn Jones fydd yn torri'r borfa yn ystod 2025.

HYFFORDDIANT DIFFIBRILYDD:

Penderfynwyd i adael trefnu hyfforddiant tan yr haf. Cafwyd cadarnhad y bydd archwiliad o'r diffibrilyddion ger Capel Nonni ac ar safle T.L Thomas a'i Fab yn ystod mis Ionawr 2025. Bydd yn cael ei ariannu gan gynllun Fferm Wynt Brechfa. Os bydd angen prynu batris neu badiau, bydd rhaid i Gyngor Bro Llanllwni dalu amdanynt.

GOLEUADAU SOLAR:

Ni fu datblygiad pellach ynglŷn â'r goleuadau ger y cysgodfannau bws o fewn y pentref. Ni fu datblygiadau yn dilyn yr achosion a gyfeiriwyd at y Cyngor Bro parthed yr anawsterau ar y ffyrdd.

BINIAU:

Cytunwyd bod angen arwyddion yn y lleoliadau lle nad oes biniau.

CROESFFORDD TEGFAN – PANTLLYN – PARK LANE:

Mae ceir yn parcio bob ochr i'r groesffordd ac yn rhwystr wrth ymuno â'r A485. Roedd y Clerc wedi danfon llythyr at Gyngor Sir Caerfyrddin yn nodi pryder am y sefyllfa ac i gyswllt lleol Heddlu Dyfed Powys. Roedd ymateb wedi cael ei ddanfon ar ebost fel a ganlyn: "Mae'r mater yma wedi cael ei godi sawl gwaith yn y gorffennol ynglŷn â'r parcio". Y Cyngor yw "os oes car yn parcio ger y safle neu ar y groesffordd yw ffonio 101 neu 999 yn syth fel bod yr heddlu yn gallu ymateb i'r sefyllfa a bydd yr Heddlu hefyd yn cadw llygaid ac yn delio â'r mater os bydd ceir yn parcio yn y lleoliad yma eto".

PWLL JAC – FFERM FELINDRE:

Mae angen atgyweirio'r giât ar y llwybr cyhoeddus o Pwll Jac i Fferm Felindre.

BANCIO:

Mae angen i'r Clerc ymweld â changen Banc Lloyds yng Nghaerfyrddin.
Cyflwynwyd y fantolen ddiweddaraf i'r Cynghorwyr.

MANTOLEN:

Cyflwynodd y Clerc fantolen o dderbyniadau a thaliadau am y cyfnod
16 Gorffennaf 2024 – 07 Hydref 2024. Cafwyd cadarnhad gan y Cynghorwyr bod y wybodaeth gywir wedi ei chyflwyno gan y Clerc.

:

Penderfynwyd i gefnogi Apêl Tegannau Nadolig y Cyngor Sir ac apêl yr Urdd.
Diolchodd y Cadeirydd i bawb am eu presenoldeb a'u brwdfrydedd dros y plwyf. Dymunwyd Nadolig Llawen i bawb.

Bydd y Cyfarfod Nesaf yn Neuadd Gymunedol Llanllwni nos Lun 13 Ionawr 2025 am 8yh.